# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0913(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 29 Ebrill 2008

**At Nick Bourne:**

Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 22 Ebrill, gofynnoch chi gwestiwn ar ariannu lleoedd mewn cartrefi gofal, a dywedodd y Prif Weinidog y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y materion a gafodd eu codi gennych.

Rwy'n credu bod y cynnydd o 2.4% y buoch yn sôn amdano yn cyfeirio at gynnydd 2008-09 yn y cyfraniad wythnosol ar gyfer 'Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG'. Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yw'r taliad y mae Byrddau Iechyd Lleol (LHBs) yn ei wneud i gartrefi gofal a nyrsio, am y gofal y mae nyrsys cofrestredig yn ei roi i breswylwyr. Sail y cyfraniad yw na ddylai unrhyw breswylydd mewn cartref gofal orfod talu am y nyrsio sy'n rhan o'i ofal, os yw asesiad ohono'n dweud bod arno angen gofal gan nyrs cofrestredig.

Yn y gorffennol, roedd yr arian ar gyfer y cyfraniadau hyn yn cael ei gadw mewn cronfa ganolog, a Llywodraeth y Cynulliad fu'n pennu maint y cyfraniad. Swm penodedig safonol, sef £114.90 yr wythnos, oedd yn cael ei gyfrannu yn y flwyddyn 2007-08. Fodd bynnag, y llynedd, cafodd yr arian hwn ei gynnwys yn y dyraniadau disgresiwn blynyddol a roddwyd i'r Byrddau Iechyd Lleol (LHBs). Bwriad trosglwyddo'r arian i ddyraniadau'r LHBs oedd creu hyblygrwydd i sicrhau eu bod yn rheoli'r arian hwn yn effeithiol ar draws y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu ganddynt. Mae hyn yn lle bod yr arian yn cael ei gadw mewn cronfa ganolog ar wahân sy'n cael ei rheoli gan Lywodraeth y Cynulliad. Canlyniad y trosglwyddo oedd bod yr LHBs bellach yn gyfrifol dan y gyfraith am bennu lefel y cyfraniad ar gyfer y Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol; nid yw'r cyfraniad bellach yn cael ei bennu'n ganolog.

Wrth gwrs, mae LHBs wedi cael gwybod am eu dyraniadau yn ôl disgresiwn ar gyfer 2008-09, ac ar sail hyn, roedd angen iddynt bennu'r cyfraniad a fydd yn cael ei neilltuo yn ystod blwyddyn ariannol eleni, gan ystyried y ffactorau perthnasol sy'n effeithio ar hyn, megis codiadau cyflog i nyrsys ac ati. Rwy'n deall bod yr LHBs ar draws Cymru newydd gytuno ar gynnydd o 2.4% yn y cyfraniad ar gyfer Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG yn y flwyddyn 2008-09, sy'n golygu swm penodedig safonol o £117.66 yr wythnos.

Gwnaethoch gyfeirio at y 2.4% hwn yn y Cyfarfod Llawn. Rwy'n gwybod bod y sector cartrefi gofal yn pryderu nad yw'r cynnydd yn ddigon mawr, a bod cynrychiolwyr o'r sector hwn wedi codi'u pryderon yn ffurfiol ac yn uniongyrchol â'r Cyfarwyddwr Nyrsio mewn LHBs. Nid wyf yn gwybod am unrhyw dystiolaeth benodol sy'n awgrymu y bydd cartrefi gofal a nyrsio yn cau oherwydd lefel y cyfraniad ar gyfer Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG. Pan fo cartrefi'n cau, er ei bod yn anffodus, mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno bod amryw o resymau pam mae hynny'n digwydd. Wedi dweud hyn, rydym yn gobeithio cael trafodaethau buddiol gyda'r LHBs am y modd y bydd y cyfraniad wythnosol ar gyfer y flwyddyn 2009 -10 yn cael ei bennu. Er nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer i roi cyfarwyddyd i LHBs ar y mater hwn, byddai cyfarfod â hwy ymlaen llaw yn ddefnyddiol i weld a fyddai'n bosibl cytuno ar eu proses o bennu'r swm wythnosol yn y dyfodol, a gweld sut y byddai darparwyr cartrefi gofal yn gallu cyfrannu at y broses honno.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0924(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mai 2008**

**At David Lloyd:**

Rwy'n ysgrifennu i ymateb i'r materion a godwyd gennych yn ystod y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 22 Ebrill ynghylch dioddefwyr cam-drin domestig sydd heb fynediad at arian cyhoeddus. Fe gytunais i edrych ar y mater hwn ac i roi rhagor o wybodaeth ichi.

Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn aelod o Grŵp Rhyng-Weinidogol Llywodraeth y DU ar Ymosodiadau Rhywiol a Thrais yn y Cartref sy'n cyfarfod bob tri mis yn Whitehall. Yn y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8 Mai 2008, cafwyd trafodaethau ynghylch datblygu cynllun newydd i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig sydd heb fynediad at arian cyhoeddus.

Mae'r mater ynghylch sut bydd y cynllun arfaethedig yn effeithio ar Gymru wedi cael ei godi gyda'r Swyddfa Gartref. Bydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth unwaith bydd manylion y cynllun newydd yn gliriach.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0908(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Mai 2008**

**At Jenny Randerson:**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Ebrill ynghylch mynediad i ddeintyddiaeth y GIG yng Ngwynedd yn dilyn eich cwestiwn i mi ar y pwnc yn y Cynulliad ar 22 Ebrill.

Gwnaethoch gyfeirio at ystadegau sy'n nodi bod 38% o'r boblogaeth yn cael at wasanaethau deintyddol y GIG yng ngogledd Gwynedd a 29% yn ne Gwynedd. Ffigurau'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yw'r ystadegau hyn ar gyfer y flwyddyn 2007, wedi'u rhagamcanu i ystyried effaith blwyddyn lawn, ac maent yn cynnwys lleoedd GIG ychwanegol sydd wedi'u contractio ers hynny. 79% yw'r ffigur ar gyfer canolbarth Gwynedd.

Ar 31 Mawrth 2006, cyn i'r contract deintyddol newydd gael ei roi ar waith, roedd 30,252 o bobl yn ardal BILl Gwynedd wedi'u cofrestru gyda deintydd y GIG, sef tua 26% o'r boblogaeth. Dan y contract newydd, yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd hyd at 30 Medi 2007 – sef y diweddaraf – roedd 43,315 o bobl (37% o'r boblogaeth) wedi defnyddio deintydd y GIG.

Mae rhai mannau mewn ardaloedd rhai BILlau lle mae angen cynyddu'r nifer sy'n defnyddio deintyddion y GIG, hynny gan mwyaf yn yr ardaloedd gwledig lle mae hi wastad wedi bod yn anodd denu deintyddion y GIG, a gwasanaethau eraill. Dyma heb os yw'r sefyllfa mewn rhannau o Wynedd. Mae'n un o'r siroedd sydd â'r nifer isaf o ddeintyddion y pen yng Nghymru. Bydd y Cynllun Iechyd Gwledig, sy'n cael ei sefydlu i edrych ar ddatblygu gwasanaethau iechyd gwledig, yn edrych ar ddarpariaeth ddeintyddol y GIG.

Cafodd cyfran o'r £30 miliwn ychwanegol ar gyfer y contract deintyddol newydd ei neilltuo ar gyfer yr ardaloedd hynny lle'r oedd yr anhawster mwyaf yn dal i fod o ran cael hyd i ddeintydd y GIG. Roedd Gwynedd yn un o'r ardaloedd a oedd wedi'i chlustnodi ar gyfer yr arian ychwanegol hwn, a bydd yn cael arian cylchol o ychydig dros £1 miliwn yn ychwanegol at yr arian cyffredinol a neilltuir i gynorthwyo cynigion i ymestyn mynediad a gwella gwasanaethau yn yr ardal.

Mae'r BILl wedi gweithio'n galed i wella darpariaeth ddeintyddol y GIG yn yr ardal, ond dychwelodd arian i Lywodraeth y Cynulliad yn 2006-07 gan nad oedd yn gallu comisiynu gwasanaethau deintyddol newydd tan y flwyddyn ariannol 2007-08 oherwydd anawsterau cynllunio.

Mae'r arian ychwanegol bellach yn cael effaith, ac mae pedwar practis deintyddol newydd wedi'u hagor, ac mae dau arall wedi ehangu, sy'n golygu bod capasiti ar gyfer 31,400 o leoedd newydd ychwanegol o'i gymharu â dwy flynedd yn ôl. Rhaid croesawu'r datblygiadau cadarnhaol hyn.